Y Comisiwn Etholiadol

Templed adroddiad yr archwiliwr a nodiadau esboniadol

Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon?

Os ydych yn gwario mwy na £250,000 wrth ymgyrchu mewn etholiad mae rhaid ichi gyflwyno adroddiad a baratöir gan archwiliwr cymwys annibynnol – fel a ddiffinir gan adran 160 PPERA – pan ydych yn cyflwyno eich cofnod gwariant ymgyrch.

Mae'r templed a ddarperir yn gosod y gofynion lleiaf ar gyfer adroddiad yr archwiliwr.

Nodiadau esboniadol

Diben adroddiad yr archwiliwr

Diben adroddiad yr archwiliwr yw darparu barn i ddweud a yw'r crynodeb o wariant a ddatganwyd yn gynrychiolaeth deg o'r cofnod gwariant ymgyrch rydych yn ei gyflwyno.

Cyflwyniad a chynnwys yr adroddiad

Dylid ategu'r adroddiad archwilio i grynodeb y gwariant ymgyrch a dynnwyd yn yr etholiad.

Dylai'r crynodeb bennu:

- enw'r blaid
- cyfanswm y gwariant a dynnwyd ymhob rhan o Brydain Fawr
- nifer yr etholaethau / rhanbarthau a ymladdwyd ymhob rhan o Brydain Fawr
- terfyn gwario ymgyrch y blaid

Dylai adroddiad yr archwiliwr gadarnhau y paratöwyd cyfanswm gwariant ymgyrch y blaid, fel a ddatganwyd yn y crynodeb o wariant, o'r cofnod gwariant. Dylai ddarparu barn i ddweud a yw'r crynodeb hwn yn darparu cynrychiolaeth deg ymhob agwedd bwysig ar wariant y blaid fel a ddatganwyd yn y cofnod ac a baratöwyd y crynodeb yn unol â'r gyfraith.

Yr hyn y dylech ei ddisgwyl o'r archwiliad

Bydd angen i'r archwiliwr wneud digon o waith i ymfodloni bod y cofnod gwariant ymgyrch yn rhydd rhag datganiadau ffug arwyddocaol. Dylai'r gwaith hwn gynnwys adolygu'r rheolaethau sy'n bodoli i sicrhau y cofnodwyd yr holl wariant ymgyrch yn iawn a'i fod wedi'i gynnwys yn y cofnod. Bydd yn cynnwys profi i sicrhau yr adnabyddir datganiadau ffug.

Bydd yr archwiliwr yn edrych ar y systemau rheoli allweddol a ddefnyddiwyd gan y blaid i sicrhau y tynnir ac y talir gwariant yn unol â PPERA. Er enghraifft, y sefydlwyd dirprwyo awdurdod ffurfiol, neu bod prawf yn bodoli bod gwasanaethau wedi'u tynnu gan berson cyfrifol. Os nad yw'r archwiliwr yn gallu dilysu bod swm sylweddol o dreuliau wedi'u tynnu neu wedi'u talu yn unol â PPERA, byddant yn rhoi barn archwilio gymwys.

Dylai'r archwiliwr fod yn ymwybodol o'r anghenion datgan ar gyfer gwariant tybiannol a byddant yn ymfodloni bod y datganiad a lofnodwyd gan y swyddog cyfrifol yn adlewyrchu anghenion PPERA. Byddant yn adolygu'r rheolaethau ar gyfer adnabod, prisio a datgan eitemau o wariant tybiannol a, chyn belled ag y gellir disgwyl yn rhesymol, byddant yn ymfodloni y cynhwyswyd pob eitem o wariant tybiannol yn y cofnod â gwerth teg. Am ein cyfarwyddyd ar wariant tybiannol gweler Trosolwg ar wariant ymgyrch plaid. Dylid rhoi ystyriaeth debyg i gyflawnder a gwerth costau gorbenion cynyddrannol.

Dylai'r archwiliwr a gyflogir i wneud y dasg hon ddarparu llythyr o ymgysylltu sy'n gosod cwmpas a natur y gwaith i'w wneud er mwyn ffurfio eu barn archwilio. Dylech gyflwyno'r llythyr o ymgysylltu hwn i'r Comisiwn wrth ichi gyflwyno'r cofnod ymgyrch a'r adroddiad archwilio. Ni fydd y llythyr hwn ar gael i'r gyhoedd.

Bydd y cofnod gwariant ymgyrch, adroddiad yr archwiliwr a chrynodeb y cofnod gwariant ymgyrch ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.
Gellir gwneud copïau o'r dogfenni ategol a gyflwynwyd gyda'r cofnod.

Amserlen ac archwilio cyhoeddus yr adroddiad

Dylech gyflwyno'r cofnod gwariant ymgyrch cyflawn ac adroddiad yr archwiliwr inni o fewn 6 mis o ddyddiad yr etholiad.

Bydd y cofnod gwariant ymgyrch, adroddiad yr archwiliwr a chrynodeb y cofnod gwariant ymgyrch ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Gellir gwneud copïau o'r dogfenni ategol a gyflwynwyd gyda'r cofnod.

Sut y gallwn ni helpu

Os oes angen help arnoch gallwch ein ffonio ar 020 7271 0616 neu gysylltu â ni gan e-bost ar pef@electoralcommission.org.uk.

Ffurflen RC3

Y Comisiwn Etholiadol

Templed adroddiad yr archwiliwr

[Enw'r swyddog cyfrifol], [Swyddog cyfrifol],

[Enw'r blaid gofrestredig] (y blaid)

Terfyn gwariant yr ymgyrch: **Cyfanswm a wariwyd:**

Rydym wedi archwilio'r crynodeb cysylltiedig o wariant ymgyrch ar gyfer ymgyrch [etholiad perthnasol] 20[xx] y blaid, a gafwyd o'r cofnod gwariant ymgyrch a baratöwyd gan [enw'r swyddog cyfrifol], o dan adran 80 y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA).

Ein barn yw bod y crynodeb o wariant ymgyrch a ddatganwyd gan [swyddog cyfrifol] [yn cynrychioli'n deg] [heb gynrychioli'n deg] gwariant ymgyrch y blaid rhwng [dechrau'r cyfnod rheoleiddiedig] a [dyddiad yr etholiad].

Cyfrifoldebau priodol

Mae [swyddog cyfrifol] y blaid yn atebol am:

- Gadw cofnodion cyfrifyddu iawn ar gyfer y blaid gofrestredig ynghylch ymgyrch [etholiad perthnasol].
- Sicrhau yr awdurdodwyd gwariant ymgyrch y blaid yn unol ag anghenion adran 75 PPERA.
- Gyflawni, o dan adran 80 PPERA, y cofnod gwariant ymgyrch a dynnwyd gan neu ar ran y blaid rhwng [dechrau'r cyfnod rheoleiddiedig] a [dyddiad yr etholiad] ynghylch [etholiad perthnasol] 20[xx].
- Wneud barnau ac amcangyfrifon rhesymol wrth benderfynu ar wariant ymgyrch y blaid.
- Gadarnhau cyn belled ag y gŵyr a chyn belled ag y cred bod y gwariant a ddatganir yng nghofnod y blaid yn gyflawn ac yn gywir.
- Baratoi'r crynodeb o wariant ymgyrch gan sicrhau ei fod yn gyson â'r cofnod.

Ein cyfrifoldeb ni, fel archwiliwr cymwys, yw datgan ar y crynodeb o wariant ymgyrch o dan adran 81 PPERA. Yn benodol, ein hamcan yw darparu barn i ddweud a gyflwynir y gwariant ymgyrch a ddatganir ar y crynodeb yn deg ymhob agwedd bwysig, yn unol â'r gyfraith. Nid yw ein barn yn estyn i gyflawnder y gwariant tybiannol na'r gwariant ymgyrch a dynnwyd gan unedau cyfrifyddu'r blaid.

Hefyd rydym yn datgan ichi os, yn ein barn ni, nad yw [swyddog cyfrifol] wedi cadw cofnodion cyfrifyddu iawn ynghylch gwariant ymgyrch y blaid - ag eithrio mewn cysylltiad â chyflawnder y gwariant tybiannol a gwariant a dynnwyd gan unedau cyfrifyddu'r blaid - os nad yw treuliau wedi'u tynnu neu wedi'u talu yn unol ag anghenion 75-78 PPERA, neu os nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd angen ar gyfer ein harchwiliad.

Sail ein barn

Gosodir natur ein harchwiliad yn ein llythyr o ymgysylltu'n ddyddiedig [nodwch y dyddiad]. Darparwyd copi i'r Comisiwn Etholiadol. Rydym wedi adolygu'r sail mae [swyddog cyfrifol] wedi paratoi'r crynodeb o wariant ymgyrch arni. Roedd hyn yn cynnwys archwilio, ar sylfaen prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r gwariant ymgyrch a dynnwyd gan neu ar ran y blaid ynghylch [etholiad perthnasol] 20[xx]. Hefyd rydym wedi asesu'r amcangyfrifon a barnau arwyddocaol a wnaethpwyd gan [swyddog cyfrifol] y blaid wrth baratoi'r cofnod.

Cynlluniasom a gweithredu'n gweithdrefnau er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau ein bod yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i ddarparu digon o dystiolaeth inni i roi sicrwydd rhesymol bod y crynodeb o wariant ymgyrch yn cynrychioli'n deg bob agwedd bwysig gwariant ymgyrch y blaid, yn unol â'r gyfraith. Fel a nodwyd, nid yw ein barn yn estyn i gyflawnder nad gwariant tybiannol na gwariant ymgyrch a dynnwyd gan unedau cyfrifyddu'r blaid.

Barn

Yn ein barn ni [nid yw'r] crynodeb o wariant ymgyrch yn cyflwyno'n deg ymhob agwedd bwysig y gwariant ymgyrch a dynnwyd gan, neu ar ran, y blaid rhwng [dechrau'r cyfnod rheoleiddiedig] a [dyddiad yr etholiad] ynghylch ei hymgyrch [etholiad perthnasol] 20[xx], yn unol â'r gyfraith, ag eithrio nad yw ein barn yn estyn i gyflawnder naill ai gwariant tybiannol y blaid na gwariant a dynnwyd gan ei hunedau cyfrifyddu.

Bwriedir yr adroddiad hwn ar gyfer defnydd [swyddog cyfrifol] y blaid a'r Comisiwn Etholiadol yn unig, mewn cysylltiad â chyfrifoldebau'r blaid o dan adran 84 PPERA. Gall y Comisiwn Etholiadol ganiatáu i'r adroddiad gael ei weld gan aelodau'r cyhoedd, fel a ofynnir gan PPERA, ond ni all ganiatáu i'r fath personau wneud copïau o'r adroddiad. Ni ddylid defnyddio ein hadroddiad ar unrhyw ddiben arall ac ni ddylai ei ddosbarthu i unrhyw bartïon eraill. Nid ydym yn derbyn unrhyw ddyletswydd o ofal na chyfrifoldeb i'r Comisiwn Etholiadol mewn cysylltiad â'n hadroddiad ac ni fyddwn yn derbyn unrhyw atebolrwydd na chyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti y dangosir yr adroddiad iddo neu y gallai ddod i'w feddiant.

[Llofnodir a dyddir gan yr archwiliwr]